**DATGANIAD I'R WASG**

**29 Mawrth 2011**

# 100 Diwrnod tan Gemau Cymru 2011

Gyda dim ond 100 diwrnod tan seremoni agoriadol Gemau Cymru, gŵyl aml chwaraeon newydd sbon i bobl ifanc, mae Urdd Gobaith Cymru yn dathlu'r achlysur trwy gyhoeddi enwau'r athletwyr cyntaf i gael eu gwahodd i gystadlu'n yr ŵyl.

Ar ddydd Gwener 8 Gorffennaf cynhelir seremoni agoriadol Gemau Cymru yn Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd. Wedi eu hysbrydoli gan Gemau Olympaidd 2012 bydd athletwyr o naw maes gwahanol yn dod at ei gilydd i ddathlu ac i arddangos talentau ifanc chwaraeon Cymru.

Y naw maes a gynrychiolir yng Ngemau Cymru yw athletau, boccia, canŵio, gymnasteg, nofio, pêl-droed, rygbi, triathlon a phêl-rwyd. Heddiw fe gyhoeddodd Gemau Cymru a Chymdeithas Phêl-rwyd Cymru mai rhai o'r timau sydd wedi eu gwahodd i gystadlu yn nhwrnamaint pêl-rwyd y Gemau yw Coleg Gwent, Ysgol Gyfun Gŵyr, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Gyfun Treorci , Ysgol Lewis i Ferched, Ysgol Uwchradd St Cennydd, Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ac Ysgol y Strade. Gwahoddir y timau hyn yn sgil eu llwyddiant yn unai Cystadleuaeth Cwpan y Llywydd Pêl-rwyd Cymru neu Cystadleuaeth Pêl-rwyd Cenedlaethol yr Urdd.

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru: "Mae'n wych bod Gemau Cymru yn gallu cyhoeddi enwau'r cystadleuwyr cyntaf. Edrychwn ymlaen am ŵyl aml chwaraeon lwyddiannus fydd yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc arddangos eu talent a bod yn rhan o fwrlwm y Gemau Olympaidd 2012."

Mae Gemau Cymru a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol y chwaraeon eraill yn disgwyl am ganlyniadau cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol cyn enwi'r cystadleuwyr eraill.

Bydd Gemau Cymru yn cymryd mantais o'r adnoddau chwaraeon gwych sydd ar gael yng Nghaerdydd gyda digwyddiadau i'w cynnal mewn amryw o leoliadau ar draws y brifddinas gan gynnwys Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Pwll Rhyngwladol Caerdydd, Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru a Chanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd. Trwy gydol y penwythnos cartrefir yr athletwyr mewn Pentref Athletwyr ym Mhrifysgol Morgannwg.

Dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones:

“Rwy’n falch iawn fod Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi’r digwyddiad hwn a fydd yn rhoi cyfle i sêr chwaraeon y dyfodol brofi naws unigryw gŵyl aml chwaraeon. Gobeithiaf bydd y digwyddiad yn annog ac yn ysbrydoli mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff ac yn rhoi llwyfan iddynt arddangos eu talentau.”

Mae Gemau Cymru wedi derbyn marc ysbrydolwyd gan Gemau Olympaidd Llundain 2012 gan eu bod yn efelychu eu gwerthoedd a’r gobaith yw y bydd yn creu gwaddol barhaol i Gymru yn dilyn y Gemau yn 2012. Bydd y penwythnos yn dechrau gyda seremoni agoriadol, a drefnir gan Menter Caerdydd, ar y prynhawn Gwener a fydd yn arwain at ddeuddydd llawn cystadlu.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb bod yn rhan o’r digwyddiad gofrestru eu diddordeb i wirfoddoli trwy gysylltu â @urdd. neu ffonio 02920 635 687.

**DIWEDD**

Am ragor o fanylion – Elin Aaron, 01970 613115 / 07976 003303 @urdd. neu Siân Eleri Davies, 01970 613109 / 07976 330360 @urdd.

**NODIADAU I OLYGYDDION**

- Gŵyl aml chwaraeon i bobl ifanc Cymru yw Gemau Cymru.
- Caiff ei chynnal ar benwythnos 8-10 Gorffennaf 2011, mewn gwahanol leoliadau o amgylch dinas Caerdydd.
- Partneriaid Gemau Cymru yw Coca Cola, Deloitte, GE, John Lewis, Mc Donalds, Prifysgol Morgannwg, Cyngor Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Mae’r cynllun wedi ei ysbrydoli gan Gemau Olympaidd 2012.
- Arweinir y prosiect gan Urdd Gobaith Cymru. Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae Gemau Cymru yn canolbwyntio ar naw elfen gystadleuol wahanol:
    - athletau — Gwe 08/07 — Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd
    - boccia — Sad 09/07 — Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol
    - canŵio — Sad 09/07 — Canolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol
    - gymnasteg — Sad 09/07 — Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru
    - nofio — Sad 09/07 — Pwll Rhyngwladol Caerdydd
    - pêl-droed — Sad 09/07 — Parc Chwaraeon Prifysgol Morgannwg
    - pêl rwyd — Sul 10/07 — Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol
    - rygbi 7s — Sul 10/07 — Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd
    - triathlon — Sul 10/07 — Canolfan Hamdden Maendy